CYNGOR BRO LLANLLWNI
ADRODDIAD CYFARFOD MIS AWST 2022

Roedd y Clerc wedi gosod poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

MATERION PERSONOL
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Diolchodd y cyn-gadeirydd sef Dewi Thomas i'r Cynghorwyr a'r Clerc am bob cydweithrediad yn ystod cyfnod heriol iawn iddo fel Cadeirydd.
Dymunwyd gwellhad buan i Ffion Harries yn dilyn llawdriniaeth yng Nghaerdydd yn ddiweddar.
Estynnwyd llongyfarchiadau i Gwennan Lloyd Owen ar ei llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf am ganu Alaw Werin dan 12 oed, a'r trydydd wobr am Lefaru dan 12 oed. Yn ogystal, estynnwyd llongyfarchiadau i'w chwaer Alwena Mair Owen ar ennill y wobr gyntaf ar gyfeilio Cerdd Dant a'r wobr gyntaf am chwarae offeryn traddodiadol yn y Tŷ Gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron ddechrau'r mis.
Estynnwyd llongyfarchiadau i Tom Jones, Bryndulais, ar gyrraedd 90 oed.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Diolchwyd i Eric Davies a Hefin Jones am wneud gwellianau ar y cae cyn y diwrnod hwyl. Yn ogystal cafwyd cadarnhad bod nifer o'r cynghorwyr wedi cynorthwyo ar y dydd. Penderfynwyd trafod datblygu'r cae chwarae yn ystod cyfarfod nesaf.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD
Roedd angen cysylltu â'r cwmni i drefnu hyfforddiant yn y dyfodol agos.

GOLEUADAU
Goleuadau solar ger cysgodfan y Belle Vue, Dol-gors a Garej Tegfan. Angen cysylltu â'r Cyng Linda Evans am fanylion pellach. Cafwyd cadarnhad bod y gwaith ger Tŷ Gôf wedi ei gwblhau.

ETHOLIAD 2022:
Nodwyd bod dwy sedd wag ar y Cyngor. Byddai hysbyseb yn cael ei osod yn Siop y Pentre, Clonc a Clecs.

YSGOL EGLWYS LLANLLWNI:
Byddai Hefin Jones yn cynrychioli'r Cyngor Bro ar gorff Llywodraethwyr Ysgol Eglwys Llanllwni.

PENDERFYNWYD CEFNOGI'R CANLYNOL:
Eisteddfod Rhys James Thomas Pantyfedwen, Llambed.
Cerebral Palsy Cymru.

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2023. Trafodir hyn yng nghyfarfod mis Medi.

CWTERION:

Pob cwter rhwng Mayfield ac Abergiar yn llawn; angen cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i'w glanhau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 5 Medi am 8.00yh.